



CABINET

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN
AR DDYDD MERCHER, 11EG EBRILL 2018 AM 2.00 P.M.**

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P.A.Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau Oedolion), R. Hartshorn (Pennaeth Polisi Diogelu'r Cyhoedd), R. Roberts (Rheolwr Perfformio) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan N. Scammell (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151 Dros Dro) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. COFNODION Y CABINET - 28AIN MAWRTH 2018

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28ain Mawrth 2018.

4. MATERION YN CODI

Cynghorydd C. Cuss (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles) sy'n cyfeirio at gofnod rhif. 7 - Cynllun Busnes Gwasanaeth Cyflawni Addysg 2018-2021. Teimlodd y dylai'r cofnodion adlewyrchu mewn mwy o fanylder yr heriau sy'n wynebu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r Cynllun Busnes.

MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

5. CYNLLUN CORFFORAETHOL GAN GYNNWYS AMCANION LLESIANT 2018 - 2023.

Gofynnodd yr adroddiad am farn y Cabinet mewn perthynas â Chynllun Corfforaethol yr Awdurdod Lleol (y Cynllun) gydag Amcanion Llesiant ar gyfer 2018 - 2023 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 17eg Ebrill 2018.

Cynghorwyd y Cabinet bod Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei wneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru osod a chyhoeddi set o flaenoriaethau o'r enw Amcanion Gwella cyn gynted ag y bo'n 'ymarferol bosibl' yn y flwyddyn ariannol newydd. Fodd bynnag, mae cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBFGA) hefyd yn gosod gofyniad cyfreithiol i 'gyrff cyhoeddus' osod a chyhoeddi Amcanion Llesiant. Gan fod gorgyffwrdd rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth, mae Awdurdodau lleol yn trin y ddau ofyniad fel un canlyniad, i gyhoeddi un set o Amcanion Llesiant, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) wedi cymeradwyo'r ymagwedd hon. Mae'r Cynllun yn cyflwyno set newydd o Amcanion Llesiant yr Awdurdod Lleol i redeg am bum mlynedd; 2018-2023. Mae canllawiau statudol WBFGA yn nodi y gall gyrff cyhoeddus benderfynu eu bod eisiau newid un neu fwy o'u Hamcanion Llesiant. Er nad oes terfyn amser ar gyfer hyn, bwriad y Cyngor yw eu hadolygu'n flynyddol, yn unol â chyflwyno adroddiadau ar gynnydd ar berfformiad Amcanion i'r cyhoedd.

Trafododd yr Aelodau'r Amcanion a nodir ym mharagraff 4.4 yn yr adroddiad ac yn benodol Amcan Rhif 5 - Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi Dull Byw Iach a gofynnwyd iddo wneud gwelliant o fewn yr argymhelliad i gynnwys 'yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.

Gofynnodd y Cabinet am ymrwymiad gan Swyddogion y byddai'r Cynllun yn rhan o'r sefydliad ac y byddai hyn yn cael ei hidlo gan uwch reolwyr i staff rheng flaen. Sicrhawyd yr Aelodau mai darn pwysig o 'jig-so' y Cynllun Corfforaethol yw cynnwys staff, a bydd cyfres o fforymau staff sy'n dechrau'r wythnos nesaf a bydd yn rhedeg ym mis Ebrill ac i fis Mai yn elfen allweddol o sicrhau bod Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn a ddarperir ar lawr gwlad.

Nododd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Swyddogion am eu cyfraniad a'u hymrwymiad o ran datblygu adroddiad cynhwysfawr gwych. Cafodd hyn ei adleisio gan y Cabinet a'r Prif Weithredwr Dros Dro.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod, yn amodol ar yr uchod, yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar welliant i argymhelliad 10.1 a'r pumed Amcan y cyfeirir ato ym mharagraff 4.4. Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi Dull Byw Iach, i gynnwys yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: -

- (i) cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol drafft gydag Amcanion Llesiant a gwelliant i'r pumed Amcan sef Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi Dull Byw Iach i gynnwys yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn argymhell i'r Cyngor ei gymeradwyo.

6. STRATEGAETH TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL GWENT .

Roedd yr adroddiad yn darparu'r Cabinet gyda Strategaeth ddrafft Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent. Mae'r Strategaeth yn ofynnol yn ôl Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac fe'i paratowyd gan Fwrdd Partneriaeth VAWDASV Gwent y mae'r Cyngor yn Aelod ohoni. Mae'n galw ar y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i gydweithio mewn modd cyson a chydlynol i wella'r canlyniadau ar gyfer unigolion a'u teuluoedd sy'n destun VAWDASV.

Sefydlwyd y Bwrdd Partneriaeth i fodloni gofynion y Ddeddf ac mae'n cynnwys y pum Awdurdod Lleol yng Ngwent, Heddlu Gwent, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, Gwasanaethau Prawf, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant Gwent, Partneriaid Sector Arbenigol VAWDASV a Sefydliadau'r Sector Gwirfoddol.

Cynghorwyd y Cabinet y cyflwynwyd yr adroddiad a'r strategaeth i'r Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar 20fed Mawrth 2018. Trafododd yr aelodau yn y cyfarfod yr angen i hyrwyddo'r strategaeth ar draws Sefydliadau Gwirfoddol y Trydydd Sector gan eu bod yn teimlo bod angen ymestyn y neges hon ar raddfa ehangach.

Awgrymwyd bod y Cabinet yn ystyried ymestyn dyddiad terfyn y Strategaeth o 2021 i 2023, i gyd-fynd â Strategaethau eraill y Cyngor a chefnogwyd hyn gan y Cabinet. Trafododd yr Aelodau'r derminoleg a ddefnyddiwyd trwy'r Strategaeth a theimlwyd nad oedd hyn yn cynnwys rhai grwpiau o bobl, gan gynnwys Dynion, Grwpiau Anabl a Chyplau Un Rhyw a gofynnwyd i welliant gael ei wneud i ymgorffori hyn. Eglurwyd bod y derminoleg a ddefnyddiwyd yn cael ei chyflwyno gan y Cenhedloedd Unedig a bydd materion yn ymwneud â'r iaith a ddefnyddir yn cael eu trafod trwy sesiynau hyfforddi a bydd gwaith yn cael ei wneud ar draws Gwent a fydd yn targedu pob grŵp. Pwrpas yr hyfforddiant yw sicrhau bod Gweithwyr Proffesiynol yn cael eu hyfforddi i roi ymateb effeithiol i unrhyw un sy'n cael eu heffeithio gan unrhyw fath o drais yn seiliedig ar eu rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Trwy fonitro, gwerthuso ac adolygu parhaus, bydd Bwrdd Partneriaeth VAWDASV yn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb yn cael eu codi'n gyson a chyflawni'r strategaeth yn cael ei haddasu.

Gofynwyd am eglurhad mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol o sesiynau hyfforddi staff. Cynghorwyd y Cabinet bod 5 lefel o hyfforddiant a gaiff ei chyflwyno ar draws yr Awdurdod sy'n cynnwys sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb ac ar ddiwedd y trydydd chwarter, roedd tua 800 o staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant. Mae angen i swyddogion ddangos bod staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant wrth gydymffurfio â'r cynllun. Bydd hyfforddiant hefyd yn cael ei wneud ar gyfer staff ysgol; mae plant ysgol yn cael sesiynau perthynas iach.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth ac yn amodol ar yr uchod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar welliant i argymhelliad 10.1, Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i sicrhau sylw cyfartal i bob grŵp gan gynnwys Dynion, Grwpiau Anabl a Chyplau Un Rhyw, a bod y Strategaeth yn cael ei hymestyn i 2023, i gyd-fynd â Strategaethau eraill y Cyngor: -

- (i) mae Strategaeth ddrafft Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn sicrhau bod sylw cyfartal i bob grŵp, gan gynnwys Dynion, Grwpiau Anabl a Chyplau Un Rhyw, yn cael ei gefnogi;
- (ii) ymestyn Strategaeth ddrafft Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent (VAWDASV) i 2023, i gyd-fynd â Strategaethau eraill y Cyngor;

- (iii) hyrwyddo'r Strategaeth yn eang ar draws Sefydliadau Gwirfoddol y Trydydd Sector.

7. PROSIECTAU ADFYWIO YN Y DYFODOL - DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN Y GYFADRAN AR GYFER CYLLID DATBLYGU PROSIECTAU.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gytundeb y Cabinet i glustnodi swm o arian gan Gronfa'r Gyfadran Cymunedau er mwyn hwyluso'r broses o Adfywio Prosiectau, a chymeradwyo adroddiad pellach i'w gyflwyno i'r Cabinet ar strwythur llywodraethu arfaethedig a fydd yn hwyluso'r broses o ddarparu'r prosiect.

Cynghorwyd y Cabinet bod cyflwyno Cytundeb Dinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd (CCR) a'r cytundeb i ddod ar gynllun busnes ar y cyd gan yr 10 awdurdod CCR yn rhoi cyfleoedd sylweddol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gynnig cyllid ar gyfer prosiectau adfywio. Yn ychwanegol at y cyfleoedd CCR, mae nifer o fentrau adfywio eraill Llywodraeth Cymru fel Tasglu'r Cymoedd a'r Targedu Buddsoddiad Adfywio a all arwain at ddarparu arian cyfalaf sylweddol ar gyfer prosiectau lleol yn y dyfodol. Er mwyn manteisio ar y cyllid a allai fod ar gael, mae angen datblygu nifer o brosiectau "parod i'w gweithredu" sydd wedi'u cynllunio a'u datblygu'n effeithiol i gam lle maent yn barod i symud ymlaen i gam gweithredu.

Nodwyd nad oes gan yr Awdurdod brosiectau ar hyn o bryd mewn sefyllfa "Parod i'w Gweithredu" lle y gall eu cyflwyno gael ei symud ymlaen. Yn hyn o beth, mae'r materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn cynnwys yr angen am gyfeiriad strategol clir ar brosiectau ac adnabod prosiectau allweddol symud ymlaen. Er mwyn i'r Awdurdod ddatblygu prosiectau "Parod i'w Gweithredu" mae angen darpariaeth gyllidebol i ddarparu'r Swyddogion gyda'r gallu i gynllunio prosiectau a datblygu, dylunio a chostio'n effeithiol cynlluniau fel eu bod yn barod i gael eu cyflwyno am gyllid /Cynllunio a chaffael lle bo hynny'n berthnasol. Gallai hyn gynnwys ymchwiliadau safle, arolygon, dyluniad, asesiadau effaith economaidd, amcangyfrif ac ati.

Trafododd y Cabinet y ffigwr o £300,000 y gofynnwyd amdano a gofynnodd a fyddai'r swm hwn yn ddigonol i ddatblygu'r prosiectau. Eglurwyd mai hwn yw swm cychwynol y gellir ei reoli ar hyn o bryd o fewn Cronfa'r Gyfadran Cymunedau a bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet maes o law.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

- (i) cytuno ar glustnodi Cronfa Datblygu Prosiect Cychwynol o £300,000 o gronfa wrth gefn y Gyfadran Cymunedau;
- (ii) bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn gofyn am gymeradwyaeth i'r trefniadau llywodraethu i hwyluso cyflwyno'r prosiect, i gael ei nodi.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.30 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y

cyfarfod a gynhalir ar 25ain Ebrill, 2018.

CADEIRYDD